# ADOLYGIAD BLYNYDDOL

URDD
GOBAITH
CYMRU



WWW.URDD.ORG


2002/3










Rees Astley Ltd

Broceriaid Yswiriant a Chynghorwyr Ariannol Annibynnol



Mae Rees Astley Ltd yn falch o gefnogi Adolygiad Blynyddol Urdd Gobaith Cymru

29 Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2JN
Ffôn: 01970 624261 Ffacs: 01970 611643
e-bost: aber@reesastley.co.uk

Mostyn House, Stryd y Farchnad, Y Drenewydd, Powys SY16 2PQ
Ffôn: 01686 626019 Ffacs: 01686 628457
e-bost: newtown@reesastley.co.uk

5 Lower Brook Street, Croesoswallt, Sir Amwythig SY11 2HG
Ffôn: 01691 670900 Ffacs: 01691 670490
e-bost: oswestry@reesastley.co.uk

O dan reolaeth Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

BIBA

MEMBER
General Insurance

# Rhagair

## Adroddiad y Prif Weithredwr



Dyma flwyddyn heb ei hail i'r Urdd gyda datblygiadau ymhob agwedd o'n darpariaeth i blant ac ieuenctid Cymru. Rydym ar drothwy cyfnod o weddnewid yn y maes, y gwersylloedd a'r Eisteddfod yn yr adnoddau, lefelau staffio a'r gweithgareddau.

Yn ystod y flwyddyn, dechreuwyd ar y ddau gynllun cyfalafol mwyaf yn hanes y mudiad yn Llangrannog a Glan-llyn sydd, ynghyd â'r adeiladu ar Ganolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd, yn golygu gwariant o dros £10 miliwn ar ein hadeiladau, gan anelu at ddarpariaeth sydd â photensial i godi o 30,000 i 44,000 o wersyllwyr y flwyddyn yn ystod 2005.

Cafwyd trafodaethau difyr am ddyfodol yr Eisteddfod a chynlluniau diddorol ar gyfer 2005 yng Nghanolfan y Mileniwm. Cynhaliwyd yr Eisteddfod orau erioed mewn amrywiaeth o agweddau ym Mharc Margam ym Mai 2003. Roedd y rhagbrofion ar y maes; y gweithgareddau ychwanegol gan y staff chwaraeon newydd a staff gweith-gareddau'r gwersylloedd, a Chaffi Mistar Urdd yn golygu newid syfrdanol i arlwy'r cystadleuwyr a'r ymwelwyr.

Yn y maes mae dyheadau blynyddoedd lawer i sefydlu tîm staff arbenigol i ddarparu chwaraeon i'n haelodau wedi dod i fodolaeth. Erbyn hyn mae gennym 6 aelod o staff chwaraeon yn darparu amrywiaeth o gampau newydd, o golff i rygbi a phêl-droed i ferched, a llu o gyfleoedd eraill. Cynhaliwyd 26,650 o sesiynau ychwanegol, gan gynnig hyfforddiant, clybiau wythnosol (53 clwb newydd), a chyfle i'n haelodau flasu chwaraeon.

Yn ganolog gwelwyd twf eto yng ngwerthiant y cylchgronau gan gyrraedd targedau 2005 yn 2003, a thwf yn yr ymwelwyr i wefan yr Urdd gan groesi'r ffigwr syfrdanol o 883 o ymwelwyr y dydd ar gyfartaledd yn ystod 2002 – 2003.

Mae'n amserol felly i edrych i'r dyfodol gyda syniadau newydd wrth ystyried paratoi Cynllun Corfforaethol am 2006 – 2010 yn ystod 2004. Yng nghyd-destun hynny, rwyf wedi cyflwyno fy ymddiswyddiad gan anelu at gwblhau fy ngwasanaeth i'r Urdd ar ôl dros 25 o flynyddoedd a bron i wyth mlynedd fel Prif Weithredwr erbyn Pasg 2004.

Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch yn ddiffuant i'r staff, swyddogion, gwirfoddolwyr ac yn bennaf yr aelodau am y cyfleoedd i fentro a datblygu fel unigolyn ac am y fraint o wasanaethu plant ac ieuenctid Cymru, gan geisio sicrhau bod yr arlwy o gyfleoedd a gweithgareddau sy'n cael eu cynnig gan yr Urdd gyda'r gorau yn y byd. Dymunaf yn dda i fy olynydd ac i'r mudiad wrth i mi fentro i'r byd hunan-gyflogedig gan hyderu y bydd y wefr yn parhau yn fy nghof am byth o fod wedi cael y cyfle i gyfrannu at waith mudiad mor bwysig i'r genedl, ac mor allweddol i dwf y defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc Cymru.



Jim O'Rourke

Prif Weithredwr

## Adroddiad y Cadeirydd



Wrth ategu sylwadau Jim yn ei adroddiad fe hoffwn i hefyd ddiolch i bawb a wnaeth hi'n bosibl i lunio rhaglen weithgareddau'r flwyddyn o'r trefnwyr cyflogedig i'r gwirfoddolwyr a'r noddwyr, ac yn sicr y cyfranogwyr hynny sy'n aelodau mor frwd o'r mudiad.

Bu'n flwyddyn arbennig iawn ac Eisteddfod Genedlaethol y mudiad yn Nhawe, Nedd ac Afan yn ŵyl fythgofiadwy i ni ar sawl lefel. Mae'r cyswllt a'r cydweithio agos rhwng y mudiad a Chymorth Cristnogol yn un rwy'n falch iawn ohono ac wrth baratoi'r adroddiad yma clywn am ymweliad rhai o'n haelodau â'r India i weld gwaith yr elusen yno. Bydd yr ymweliad yma rwy'n siŵr yn symbyliad i'r criw i ddod yn ôl ac i sôn am eu profiadau wrth yr Urddaholics a'r aelodau iau fel y gwelwn ddatblygiad pellach rhwng yr Urdd a'r elusen ac elusennau a chymdeithasau eraill. Yng nghanol y miri a'r rhialtwch serch hynny, daeth y newyddion am ymddiswyddiad y Prif Weithredwr. Mae Jim wedi bod yn allweddol i lwyddiant yr Urdd yn ystod y 25 mlynedd diwethaf a hynny ar sawl lefel, o'i waith blaengar fel trefnydd sir i'r egni di-ben-draw yn Llangrannog a'i weledigaeth glir fel Prif Weithredwr. Mae'r Urdd ar ymyl un o'r cyfnodau mwyaf cyffrous erioed ac i Jim y mae'r diolch am hynny.

Ar ran holl aelodau'r mudiad, y gwirfoddolwyr a'r staff ynghyd â'n partneriaid, diolch i ti Jim am dy frwdfrydedd a dy arweiniad cadarn mewn tywydd drwg a hindda. Yn bersonol, diolch i ti am dy gefnogaeth a dy gwmnïaeth, ac ar ein rhan ni i gyd - pob hwyl gyda'r fenter newydd.



Rhiannon Lewis
Cadeirydd


## Nod Urdd Gobaith Cymru

**Bwriad Urdd Gobaith Cymru yw sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol. Cyflawnir hyn trwy'r ddelfryd o wasanaeth i Gymru i Gyd-ddyn ac i Grist.**

ar ran Swyddogion Urdd Gobaith Cymru

rhif elusen: 524481
rhif cwmni: 263310

Swyddfa'r Urdd,
Ffordd Llanbadarn
Aberystwyth,
Ceredigion.
SY23 1EY
Ffôn: 01970 613100
E-bost : urdd@urdd.org
Gwefan : www.urdd.org



## Gair gan y Llywydd, Manon Jones

'Mae bod yn aelod o'r Urdd ar hyd y blynyddoedd wedi bod yn fodd i mi feithrin hyder i wneud pethau yn gyhoeddus trwy gystadlu yn yr eisteddfodau a thrwy ymweliadau â'r gwersylloedd yn rheolaidd. Mae'r gwerthoedd a amlinellir yn nhriban gwreiddiol yr Urdd yn bwysig iawn i mi yn bersonol, sef:

"Tri pheth a gywir garaf –
Fy Nghymru hyd yr eithaf,
Fy nghyd-ddyn ym mhob rhan o'r byd
A Christ cyhyd y byddaf."

Manon Jones,

## STRWYTHR STAFF YR URDD

**PRIF WEITHREDWR**
Jim O'Rourke

**Gwersyll Llangrannog**
Cyfarwyddwr:
Steffan Jenkins

**Gwersyll Glan-llyn**
Cyfarwyddwr:
Alun Owens

**Eisteddfod a'r Celfyddydau**
Cyfarwyddwr:
Siân Eirian

**Cyfarwyddwyr Taleithiau**
Dafydd Carrington / Dyfrig Morgan

### Gwasanaethau Cenedlaethol

**Cyfarwyddwr Busnes a Pherson l a Dirprwy Brif Weithredwr:**
Mai Parry Roberts

**Cyfarwyddwr Datblygu:**
Efa Gruffudd Jones

**Cyfarwyddwr Cylchgronau:**
Siân Eleri Davies

**Cyfarwyddwr Cyfathrebu:**
Iola Jones



## Ystadegau diddorol am Urdd Gobaith Cymru

- Prif fudiad ieuenctid Cymru
- Aelodaeth o 50,785
- 45,000 yn dechrau ar y daith eisteddfodol - 15,000 o'r rhain yn llwyddo i gyrraedd yr Eisteddfod Genedlaethol
- 25% o holl blant 10 oed yng Nghymru
- Darparwr chwaraeon blaenllaw Cymru – dros 400,000 o sesiynau chwaraeon y flwyddyn
- 93,000 o gylchgronau Cymraeg yn cael eu gwerthu'n flynyddol
- 170 o staff a throsiant ariannol o £5 miliwn
- 10,000 o wirfoddolwyr mewn 1,300 o ganghennau
- 1.8 miliwn o gysylltiadau y flwyddyn â'n gwefan - 883 o ymwelwyr y dydd ar gyfartaledd

## Swyddogion Urdd Gobaith Cymru 2003

Llywydd: ........................................ Manon Jones

Is-Lywyddion: ........................................ Eirith Evans a Dyfrig Jones

Llywyddion Anrhydeddus: ........................................ Prys Edwards
Wynne Melville Jones
Bob Roberts

Cadeirydd: ........................................ Rhiannon Lewis


Is-Gadeirydd: ........................................ Eurig Davies

Trysorydd: ........................................ Geraint Rees

Ysgrifennydd: ........................................ Marc James


Cadeiryddion Taleithiol: ........................................ Alun Edwards (Gogledd),
Tudur Dylan (Canolbarth)
Dyfrig Ellis (De)











# Gwersylloedd

## Glan-llyn

- Y flwyddyn brysuraf eto yn hanes y Gwersyll am y drydedd tro'n olynol – er yr holl adeiladu – gyda 12,258 o wersyllwyr yn lletya yng Nglan-llyn.
- Gwelwyd datblygiadau cyffrous yn y Gwersyll gyda'r Ganolfan Groeso newydd yn agor yn yr Hydref. Bydd swyddfeydd newydd, theatr ddarlithio ac ystafelloedd cysgu ychwanegol. Bydd yr adeilad newydd ynghyd â gwelliannau sylweddol i'r meysydd parcio, i'r fynedfa, i'r gweithgareddau ac i gegin y Gwersyll yn ein galluogi i wasanaethu rhagor o ieuenctid Cymru yn ystod y blynyddoedd nesaf.
- Cafwyd tri chwch catamarán i'r Gwersyll, sydd yn cynnig gweith-garedd newydd a chyffrous i bobl ifanc o bob oed. Ariannwyd y cychod yn bennaf gan y Cyngor Chwaraeon ac Ymddiriedolaeth Pantyfedwen.
- Ail-wampwyd y ganolfan Bowlio 10 gyda pheiriannau a sgriniau newydd sy'n galluogi mwy i chwarae ar yr un pryd a pheli a phinnau sy'n disgleirio yn y tywyllwch!
- Mae'r Cyber Café – Syrff-e-dy – y Gwersyll ar lein erbyn hyn ac yn boblogaidd iawn.
- Cafodd y Gwersyll gryn sylw a chyhoeddusrwydd yn sgîl cyfres a gwefan S4C ar Glan-llyn yn ystod yr haf a gobeithiwn y bydd y cyfle o weld cymaint o bobl ifanc Cymru yn amlwg yn mwynhau yn denu mwy fyth i Lan-llyn yn y dyfodol.
- Wedi blynyddoedd o wasanaeth ffyddlon cafwyd byrddau a chadeiriau newydd yn lle'r meinciau yn y Caban Bwyta.
- Dechreuodd y Gwersyll redeg cyrsiau Arweinydd Mynydd am y tro cyntaf.
- Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n mynychu'r Gwersyll Haf, yn arbennig yn y rhai fu'n mynychu'r cyrsiau hŷn dros 14 oed.
- Bydd Cwrs Rhaffau Uchel a datblygiadau i'r lanfa ac i'r gegin yn y flwyddyn nesaf wrth i ni dderbyn £100,000 o arian nawdd 'NOF'o siroedd Gwynedd a Môn.
- Bwriadwn hefyd ddechrau cyrsiau sgiliau allweddol i fyfyrwyr 16+ i ddatblygu arweinwyr newydd ar gyfer Adrannau ac Aelwydydd yr Urdd. Mae datblygiad y cyrsiau wedi ei gefnogi gan ELWa a gobeithiwn ddechrau cwrs peilot yn fuan.
- Penodwyd Swyddog Iaith yn y Gwersyll am y tro cyntaf erioed. Dyletswyddau'r Swyddog Iaith fydd creu, datblygu a marchnata cyrsiau Cymraeg yng Nglan-llyn. Bydd prifysgol UWIC yn hyfforddi a chynorthwyo elfennau marchnata y swydd.
- Blwyddyn brysur a chyffrous i bawb yn y Gwersyll. Ond gyda chymaint o ddatblygiadau ar fin eu cwblhau, dylai 2003-2004 fod yn flwyddyn i'w chofio yn wir.



Cysylltwch ag: Alun Owens, Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Glan-llyn
Ffôn: 01678541000 E-bost: Glanllyn@urdd.org Gwefan: www.urdd.org

## Llangrannog


- Cafwyd blwyddyn lwyddiannus arall gyda 18,120 wedi aros yn ystod y flwyddyn, sy'n golygu 48,981 am ddiwrnod a'r canlyniad ariannol gorau erioed.
- Dechreuwyd ar adeiladau'r cynllun newydd yn Nhachwedd 2002 a gobeithir gorffen erbyn diwedd Tachwedd 2003. Ar ôl blynyddoedd lawer o siarad a gobeithio mae'r cynllun newydd o'r diwedd wedi dwyn ffrwyth. Golyga hyn y gallwn symud ymlaen at y dyfodol yn hyderus gan wybod bod gennym y cyfleusterau gyda'r gorau o'u bath yn Ewrop. Mae'r ganolfan hamdden a'r bloc cysgu newydd a'r gwaith adnewyddu sydd wedi'i wneud ar adeiladau'r fferm lle bydd y Ganolfan Treftadaeth, yn werth eu gweld.
- Gyda dyfodiad y cyfleusterau newydd byddwn yn creu 30 swydd newydd yn ystod y tair blynedd nesaf gan ychwanegu at y 55 a gyflogir yma yn y Ganolfan yn barod. Gwelir yr Urdd yn y rhan yma o Gymru fel cyflogwr pwysig sy'n cynnig gwaith a chyfleon da ac sy'n holl bwysig i economi cefn gwlad.
- Mentrwyd ac arbrofwyd yn Eisteddfod Tawe, Nedd ac Afan eleni gyda staff y gwersylloedd yn rhedeg Caffi Mr Urdd ar y Maes. Profodd y fenter yn waith enfawr i'r staff ond roedd yn llwyddiant ysgubol gyda phawb yn talu teyrnged i safon y bwyd a'r pris!
- Ail drefnwyd y Neuadd Llafnrolio gan osod llawr newydd. Mae hwn wedi profi'n llwyddiant mawr ac yn rhoi neuadd ychwanegol i ni ar gyfer gweithgareddau torfol.
- Suddwyd twll i ddarparu dŵr i'r llethr sgïo. Golyga hyn bydd ein bil dŵr yn lleihau yn sylweddol unwaith bydd y gwaith yma yn cael ei gwblhau.
- Yn ystod yr wythnosau nesa bydd y gwibgartiau newydd yn cyrraedd. Addaswyd maes parcio'r llethr sgïo fel trac.
- Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cefnogaeth eto eleni.

Cysylltwch â: Steffan Jenkins, Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Llangrannog
Ffôn: 01239 654473 E-bost: Llangrannog@urdd.org Gwefan: www.urdd.org

## Canolfan Mileniwm Cymru

Mae Canolfan Mileniwm Cymru ar ei thraed bellach, a gellir ei gweld yn ymgodi i'r ffurfafen o sawl cyfeiriad ym Mae Caerdydd. Mae trydydd gwersyll yr Urdd sydd o fewn y Ganolfan bron yn barod, ond bydd yn rhaid aros i'r Ganolfan gyfan gael ei chwblhau cyn agor ein Gwersyll yn y ddinas. Disgwylir i'r Ganolfan fod yn weithredol erbyn Tachwedd 2004. Bydd y Gwersyll yma yn cynnwys 150 o welyau, theatr i'r Urdd sy'n dal 150, lolfa, dwy ystafell ddosbarth, ffreutur yn ogystal â swyddfeydd i staff y Gwersyll, staff Talaith y de ac Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau yn y de. Preswylwyr eraill yn y Ganolfan fydd Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru, Cwmni Dawns Diversions, Yr Academi, Ymddiriedolaeth 'Touch', Tŷ Cerdd a Chwmni Theatr Hyjinx. Mae canolfan sy'n cartrefu'r holl sefydliadau yma ynghyd â phrif theatr i 1,800 yn argoeli i fod gyda'r gorau yn y byd.

Gwefan: www.wmc.org.uk



# Y Maes

Eleni gwelwyd twf sylweddol yn ein lefel o weithgareddau ym mhob un o'r rhanbarthau a gyda chefnogaeth nifer o wahanol gyrff ychwanegwyd hefyd at y tîm o staff – isod ceir blas yn unig o'r flwyddyn a aeth heibio.

- Gwelwyd twf o 4.6% yn ein haelodaeth eleni gan ei godi i 50,781.
- Penododwyd Swyddog Urddaholics i'r gogledd a Swyddogion Ieuenctid gyda chefnogaeth ariannol yr awdurdodau lleol ym Mynwy, Torfaen a Chaerfyrddin. Gwelwyd twf hefyd mewn prosiectau ar y cyd gyda'r Mentrau Iaith.
- Trefnwyd ymweliadau a chyfleoedd addysgol i dros 30,000 o bobl ifanc.
- Bu dros 13,000 ar gyrsiau Swyddogion Datblygu i wersylloedd yr Urdd.
- Ymwelodd dros 800 o aelodau â gwledydd tramor ar deithiau a drefnwyd gan yr Urdd.
- Bu'r Urddaholics yn brysur gydag ymweliadau i'r Iwerddon, yr Alban, Sbaen, Ffrainc, Gwlad Pwyl ac Azerbaijan.
- Yn ystod y flwyddyn gwiriwyd pob aelod o staff gan y Biwro Cofnodi Troseddol (CRB) ac nawr rydym wedi dechrau ar y dasg o wirio gwirfoddolwyr y mudiad.
- Bu staff adran y Maes ar gwrs gyda Heddlu Dyfed Powys a Heddlu Gogledd Cymru ar ganllawiau amddiffyn plant a chamddefnydd cyffuriau.
- Mae asesiadau risg a pholisïau diogelwch yn cael eu diweddaru yn rheolaidd.
- Cynhaliwyd cyrsiau hyfforddi ar gyfer arweinwyr a darpar arweinwyr yn y meysydd chwaraeon a'r celfyddydau. Paratowyd canllawiau diogelu plant a dosbarthwyd Llawlyfr Arweinyddion i'r Adrannau a'r Aelwydydd cymunedol.
- Bu cydweithio rhwng yr Urdd, BBC Radio Cymru a Mentrau Iaith mewn digwyddiadau megis Miri Myrddin, Parti Ponty a Ffiesta Fflint. Bu'r Urdd yn cydweithio ar ddathliadau pen-blwydd Radio Cymru hefyd.
- Bu cynnal Jambori a Gig enfawr ym Mhafiliwn Eisteddfod ym Mharc Margam yn llwyddiant mawr. Daeth yn agos i 2,000 o blant ysgolion lleol i'r digwyddiad ar ddydd Gwener cyn yr Eisteddfod.

## STRWYTHUR YR URDD

CYNGOR YR URDD
Swyddogion yr Urdd a 100 o gynrychiolwyr o'r rhanbarthau – cyfarfod ddwywaith y flwyddyn

Y Pwyllgor Gwaith

Y BWRDD BUSNES | BWRDD YR EISTEDDFOD A'R CELFYDDYDAU | BWRDD Y MAES

Y PWYLLGORAU TALEITHIOL
GOGLEDD | CANOLBARTH | DE

PWYLLGORAU RHANBARTH


## Chwaraeon


- Penodwyd pump Swyddog Chwaraeon ym Medi 2002 gyda chefnogaeth Bwrdd Yr Iaith Gymraeg a Chyngor Chwaraeon Cymru ac yn sgîl hyn sefydlwyd 53 o glybiau chwaraeon wythnosol newydd. Yn ogystal, cyflwynwyd sesiynau blasu chwaraeon i dros 14,000 o aelodau.
- Cynhaliwyd tair Academi golff newydd i ferched.
- Ymestynwyd yr ŵyl rygbi uwchradd i ddau ddiwrnod. Daeth 118 o dimoedd i gystadlu yn Llanelli.
- Gŵyl pêl-rwyd Uwchradd - daeth 98 tîm i gystadlu yng Nghaerdydd.
- Cynhaliwyd Gwyliau Chwaraeon arferol yr Urdd yn Aberystwyth.
- Unwaith eto derbyniwyd y Galas Nofio Cenedlaethol yn y de a'r gogledd fel rhan o galendr Cymdeithas Nofio Cymru.
- 540 o Urddaholics a gwirfoddolwyr wedi mynychu cyrsiau hyfforddi chwaraeon.
- Diwrnod o hwyl newydd i'r Aelwydydd ym Mharc Heatherton, Sir Benfro. Diwrnod cyffrous iawn i'r Aelwydydd gyda chyfle i wibgartio ar beiriannau hyd at 40 milltir yr awr, cychod clats, saethu colomennod clai, golff a saethyddiaeth.
- Record newydd Prydain yn cael ei thorri yn y 100 medr bechgyn blwyddyn saith yng Ngŵyl Athletau de Cymru yr Urdd ym mis Gorffennaf 2003.





Cysylltwch â
Dafydd Carrington, Cyfarwyddwr Talaith
Ffôn: 01686 626 521 E-bost: dafydd@urdd.org
Dyfrig Morgan, Cyfarwyddwr Talaith
Ffôn: 02920 803350 E-bost: dyfrig@urdd.org
Gwefan: www.urdd.org










## Cyd-ddyn a Christ

- Cysylltiad gyda chartref plant Legnicia Gwlad Pwyl yn mynd o nerth i nerth gydag ymweliad â gwersylloedd Glan-llyn a Llangrannog gan dros hanner cant o blant eleni. Enillwyd Gwobr Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid gyda'r cynllun - llongyfarchiadau mawr i'r Urddaholics a'r staff sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Parhau mae'r cydweithio gyda Chymorth Cristnogol a phrosiect Croeso Calcutta. Ym mis Medi 2003 aeth chwech o Urddaholics i ymweld â Sanlaap yn Calcutta, un o bartneriaid Cymorth Cristnogol yn yr India. Sicrhawyd grant gan y Commonwealth Youth Exchange tuag at ariannu'r daith. Yn ystod yr ymweliad bu'r grŵp yn astudio gwaith Sanlaap sy'n cefnogi ac yn ymgyrchu dros hawliau plant yn ardaloedd tlotaf Calcutta. Bu ymweliad hefyd â lloches arbennig Sneha ar gyrion y ddinas. Gyda'r holl wybodaeth a gasglwyd a'r hyn a ddysgwyd drwy siarad a chymdeithasu gyda'r bobl ifanc, gellir creu rhaglen o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth a rhannu profiadau gydag aelodau'r Urdd leldled Cymru. Mae nifer fawr o weithgareddau wedi eu cynnal ar thema Croeso Calcutta gydag aelodau'r Urdd dros y 18 mis diwethaf i gefnogi'r apêl Croeso Calcutta. Mae'r gweithgareddau hyn wedi amrywio o nosweithiau Indiaidd, cyfraniadau, casgliadau a gweithgareddau hwyl.
- Lluniwyd Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd eleni gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Gwyr. Cyflwynwyd y Neges yn swyddogol o lwyfan Eisteddfod Genedlaethol Tawe, Nedd ac Afan, ac am y tro cyntaf eleni, mewn gwasanaeth arbennig yn Eglwys Gadeiriol Llandaf Caerdydd gyda linc ffôn i gartref plant Legnicia yng Ngwlad Pwyl. Aethpwyd â'r Neges hefyd i'w gyflwyno i Aelodau Seneddol o Gymru yn San Steffan a chyflwynwyd y poster wedi ei fframio i swyddfa Tony Blair.

## Cynllun Celf Rhanbarth Meirionnydd

- Derbyniodd Meirionnydd grant am flwyddyn gan Gyngor y Celfyddydau i hybu a chynnig cyfle i holl ieuenctid y rhanbarth fwynhau'r celfyddydau. Cynhaliwyd gweithdai mewn celf a chrefft, ysgrifennu creadigol, barddoniaeth, drama a chymeriadu, lleisio a chanu corawl. Bu'n gyfle i'r ieuenctid gydweithio gydag artistiaid blaenllaw Cymru. Edrychwn ymlaen am weithdai dawns a Jambori yn yr Hydref i gloi'r cynllun.



# Eisteddfod a'r Celfyddydau

## Eisteddfod Caerdydd a'r Fro 2002

Yn dilyn Eisteddfod ardderchog yng Nghaerdydd a'r Fro gallwn gyhoeddi canlyniad ariannol eithriadol o £29,000 yn ychwanegol at y targed a gytunwyd o £128,000 fel cyfraniad tuag at gostau canolog a rhediad cyffredinol y mudiad.

## Eisteddfod Tawe, Nedd ac Afan 2003

- Braf yw gallu edrych yn ôl ar ddiwedd Prifwyl Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru a datgan ein bod wedi cael gŵyl ardderchog; gŵyl a oedd yn arloesol ar sawl ystyr.
- Daeth dros 107,000 i'r maes, heb anghofio y miloedd oedd wedi mwynhau rhaglenni byw drwy gyfwng radio, teledu a'r we, ynghyd â phapurau newydd.
- Manteisiwyd ar y ffaith fod llawer o adeiladau ysblennydd ar gael i gynnal y rhagbrofion ar y Maes, a fu'n gyfrwng i sicrhau bwrlwm o gerddoriaeth, dawns a llefaru ymhob cornel o'r maes drwy gydol yr wythnos.
- Roedd yn faes godidog rhwng môr a mynydd ar dir hen ystâd Margam, maes a fydd yn aros yn hir yn y cof. Manteisiwyd ar y ffaith fod llyn ar y maes a bu ein gweithgareddau canŵio o hwylio yn hynod boblogaidd ac yn atyniad ychwanegol. Yn yr un modd bu'r beiciau modur a'r holl gynlluniau chwaraeon yn hynod boblogaidd.
- Bu i'r Urdd fentro i'r byd arlwyo gyda staff y gwersylloedd yn cynorthwyo i sicrhau llwyddiant Caffi Mistar Urdd.
- Gwe-ddarlledu'r Eisteddfod yn cyrraedd 60 o wledydd.
- Cefnogaeth ariannol Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot ynghyd â chefnogaeth arbennig iawn "mewn da".
- Sicrhawyd mwy o Nawdd i'r Eisteddfod nac erioed o'r blaen.
- Daeth yr arfer o letya plant gyda theuluoedd i ben, gan golli profiad diwylliannol a chymdeithasol unigryw iawn. Daeth yr arfer i ben yn dilyn rheolau newydd a llymach y Biwro Cofnodion Troseddol.
- Daeth adroddiad cydnabyddedig STEAM i law yn dilyn ymchwil o'r budd economaidd i ardal yr Eisteddfod, ac adroddwyd fod y budd hwnnw dros £6.5 miliwn.
- Diolch am y gefnogaeth arbennig iawn gan y Pwyllgorau lleol, ac i'r byddin o wirfoddolwyr am eu hymroddiad.



## Ynys Môn 2004

- Cafwyd wythnos o ŵyl Gyhoeddi ar yr ynys a chyrhaeddwyd y penllanw ar y penwythnos olaf mewn cyngerdd yng nghwmni'r plant a'r bobl ifanc pan gyflwynwyd Rhestr Testunau Môn i Lywydd y Mudiad.
- Cafwyd cyflwyniad croeso arbennig gan ieuenctid yr ynys ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol Tawe, Nedd ac Afan a fydd yn arwydd o'r bwrlwm a'r brwdfrydedd fydd yn eich aros.
- Cynhelir yr Eisteddfod a'r Faes Sioe Amaethyddol Môn ym Mona, a mawr obeithiwn erbyn hynny y bydd buddsoddiad arbennig wedi digwydd i addasu canolfan aml-bwrpas yno mewn da bryd i'r Eisteddfod ym Mai 2004.

## Y Dyfodol

- Er mwyn datblygu Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru ymhellach, comisiynwyd arolwg annibynnol gan Cwmni Iaith Cyf. i edrych ar ddyfodol yr Eisteddfod o 2005 ymlaen. Roedd ffrwyth yr ymchwil yn ddiddorol a chafwyd trafodaethau buddiol. Llwyddwyd i weithredu rhai o'r argymhellion yn Tawe, Nedd ac Afan eleni, a gobeithiwn weithredu ymhellach yn y dyfodol.
- Cafwyd noson arbennig iawn gyda chystadleuwyr Ysgoloriaeth Bryn Terfel, a diolchwn i Bryn Terfel am ei garedigrwydd yn cytuno i gymryd rhan mewn cyngerdd arall i ni yn Neuadd Dewi Sant Caerdydd ar 21 Mawrth 2004 a fydd yn sicrhau datblygiad yr Ysgoloriaeth hon i'r dyfodol.

## Y Daith Eisteddfodol

- 2005 – Canolfan y Mileniwm - Caerdydd
- 2006 – Sir Ddinbych
- 2007 – Sir Gaerfyrddin









Cysylltwch â: Siân Eirian, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau
Ffôn: 01970 613110 E-bost: Eisteddfod@urdd.org Gwefan: www.urdd.org







# Adran Gyfathrebu a Chylchgronau


## Cyfathrebu



- Blwyddyn dda iawn o ran aelodaeth eleni, gyda bathodyn Mistar Urdd, a bathodyn triban yr Urdd a roddwyd i bawb a ymaelododd cyn y Nadolig yn profi'n boblogaidd iawn, oherwydd fe ymaelododd 7,721 yn fwy cyn y Nadolig 2002 o'i gymharu â'r un adeg y flwyddyn cynt. Llwyddwyd i groesi'r 50,000 eleni gyda 50,781 yn ymaelodi o'i gymharu â 48,546 llynedd. Bydd yr ail yn y gyfres o fathodynnau metel Mistar Urdd yn cael ei roi i aelodau cynradd sy'n ymaelodi cyn y Nadolig eleni, a bydd cylch allwedd Mistar Urdd yn cael ei roi i'r aelodau Uwchradd a phecyn arbennig i'r Urddaholics.
- Arbrofir gyda chynllun Aelodaeth Teulu o fis Medi 03 ymlaen am y tro cyntaf yn hanes yr Urdd, lle bydd teuluoedd efo tri neu ragor o blant yn cael cynnig ymaelodi am bris gostyngol.
- Ail adeiladwyd gwefan yr Urdd dros yr haf, gan roi mwy o ddeunydd ar y we sydd o ddiddordeb i'n haelodau, darpar-aelodau a'n harweinyddion.
- Diweddarwyd y Llyfryn Arweinyddion a'i ddosbarthu i'r adrannau, ac mae bellach i'w weld ar ein gwefan hefyd.
- Bu'r Pafiliwn Croeso dan ei sang yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mharc Margam, ac ymysg y gweithgareddau roedd sesiynau sgiliau syrcas, gweithdy dawns efo'r grŵp Trysor, peintio wynebau, ac roedd Mistar Urdd yn cael croeso mawr yno wrth gwrs.
- Roedd gan yr Urdd bresenoldeb mewn tri safle ar faes sioe Llanelwedd eleni, y wal ddringo ar safle Cyngor Chwaraeon, y garafán gyhoeddusrwydd ar safle S4C, ac arddangosfa ym mhafiliwn Partner-iaith, sef pafiliwn partneriaid a ariannir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Croesawyd y Prif.f@ar yn ôl fel rhan o'n darpariaeth ar ein hunedau yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod. Cynhaliwyd gweithgareddau i godi arian i brosiect Croeso Calcutta yno, a bu'r bar di-alcohol yn boblogaidd iawn yn ystod yr wythnos chwilboeth honno.
- Rhyddhawyd nifer o ddatganiadau i'r wasg yn ystod y flwyddyn gan godi proffil yr Urdd yn y wasg genedlaethol, gan gynnwys darparu deunydd ar gyfer cynadleddau'r wasg yn ystod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Tawe, Nedd ac Afan.
- Cefnogwyd Polisi Iaith yr Urdd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg cyn cael ei




## Cylchgronau




- Gwelodd 30 rhifyn arall o gylchgronau'r Urdd olau dydd eleni – ac mae cylchrediad y cylchgronau wedi cynyddu 5.8% dros y flwyddyn.
  - **Cip** - clecs, erthyglau, posteri, cystadlaethau, posau a mwy i siaradwyr Cymraeg dan 12 oed.
  - **Bore Da** - cylchgrawn bywiog a syml ei iaith i ddysgwyr Cymraeg mewn ysgolion cynradd, addas ar gyfer cyfnod allweddol 1 a 2 o'r Cwricwlwm Ail Iaith.
- **iaw!** - cylchgrawn cyfoes i ddysgwyr Cymraeg oedran uwchradd, sy'n cyd-fynd â phecyn aml gyfryngol iaw! ac sy'n addas ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 a 4 o'r Cwricwlwm Ail Iaith.




- Paratoir taflenni athrawon i gyd-fynd â Bore Da a iaw! i hybu eu defnydd yn y dosbarth. Mae taflenni Bore Da yn ddwyieithog.
- Cyngor Llyfrau Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n ariannu'r cylchgronau, ac mae'r Urdd yn ddiolchgar i'r ddau gorff am eu cefnogaeth.
- Yn ystod y flwyddyn datblygwyd gwefan y cylchgronau, gan gynnwys tudalen bob mis yn cynnig gweithgareddau pellach i'w gwneud gan ddefnyddio'r cylchgrawn Cip.




- Rydym yn ddiolchgar iawn i'r timau Athrawon Bro ledled Cymru am eu cefnogaeth barod bob amser. Eleni gwelwyd datblygu pellach yn y cydweithio yma, ac mae gwerthiant Bore Da a iaw! yn adlewyrchu hynny.
- Parhawyd i gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi athrawon Cymraeg ysgolion uwchradd, gan gydweithio ag Ymgynghorwyr y Gymraeg mewn sawl sir a gydag Hyfforddwyr Ymgynghorol CBAC. Mae'n fwriad sicrhau bod rhai o erthyglau iaw! eleni yn priodi gyda'r fanyleb TGAU newydd gan obeithio bydd hyn yn ychwanegu at ddefnyddioldeb iaw! yn y dosbarth.
- Yn ystod y flwyddyn parhawyd i ymweld ag ysgolion, ymweld â chyrsiau yn y gwersylloedd a chynnal sgwadiau sgwennu i hyrwyddo'r cylchgronau. Gan ymateb i alw cynyddol gan athrawon cynradd rydym wedi paratoi taflen farchnata newydd i'w dosbarthu i rieni disgyblion er mwyn hwyluso trefnu archebion Cip a Bore Da yn yr ysgol.
- Rydyn ni'n ddiolchgar i Swyddfa'r Post a Planed Plant am eu cefnogaeth i Gystadleuaeth Ysgrifennu Llythyr Cip, a lwyddodd i ddenu bron i 700 o gystadleuwyr eleni, ac i'r cwmnïau eraill sy'n ein cefnogi yn y cylchgronau.
- Mae'r Urdd yn parhau i fod yn un o'r partneriaid yng nghynllun Bardd Plant Cymru a chyhoeddwyd enw Ceri Wyn fel Bardd Plant Cymru 2003-2004 o lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Tawe, Nedd ac Afan ym mis Mai.
- Ym mis Medi 2002, cyhoeddwyd ail lyfr jôcs Cip, **Mwy o J  cs Cipyn Caws**, a bellach mae wedi gwerthu dros 1150 o gopïau. Mae'r llyfr yn un o dri ar restr fer Gwobr Tir na N-og am lyfr gorau'r flwyddyn heb fod yn ffuglen.
- Yr Adran Gylchgronau baratôdd fap Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Tawe, Nedd ac Afan eleni, gan gynorthwyo hefyd gyda'r ddarpariaeth ar gyfer y wasg yn yr ŵyl.



Cysylltwch ag: Iola Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu
Ffôn: 01970 613115 E-bost: iola@urdd.org Gwefan: www.urdd.org

Cysylltwch â: Siân Eleri Davies, Cyfarwyddwr Cylchgronau
Ffôn: 01970 613118 E-bost: sianeleri@urdd.org Gwefan: www.urdd.org

# Nawdd

Rydym yn ymdrechu i sicrhau cefnogaeth ariannol i waith yr Urdd o bob math o ffynonellau. Heb y gefnogaeth hon ni fyddai modd i ni gynnig yr amrediad o brofiadau sy'n cael eu disgrifio yn yr adolygiad hwn.

## Bwrdd yr Iaith Gymraeg

........£454,000

## Ffynonellau Ariannol

**Cynigiwyd y grantiau canlynol:**

Cyngor Ieuenctid Cymru.......................................£60,000
ar gyfer 2002-2003
Cyngor Llyfrau Cymru..........................................£22,500
ar gyfer 2002-2003
Cyngor Celfyddydau Cymru (Prosiect peilot): ......£48,000
ar gyfer gweithgareddau Eisteddfod 2003
Cyngor Chwaraeon Cymru: .................................£25,969
ar gyfer cefnogi strategaeth chwaraeon
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru : ...............£14,090
ar gyfer cynllun hyfforddi gwirfoddolwyr

**Grantiau Llangrannog a Glan-llyn**

Ymddiriedolaeth Garfield Weston.......................£100,000
Cyngor Sir Gwynedd..........................................£150,000
Bwrdd Datblygu Cymru.......................................£243,912
Amcan 1 - ERDF..................................................£120,978
Amcan 1 - EAGGF................................................£110,643
Bwrdd Croeso Cymru...........................................£157,731
Cyngor Sir Ceredigion - LRF................................£169,031
Cynulliad Cenedlaethol Cymru - LRF...................£200,000

## Noddwyr

Diolchwn i'r noddwyr a gefnogodd Eisteddfod yr Urdd. Cafwyd £208,000 o nawdd tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2003.

Noddodd Post Brenhinol gystadleuaeth ysgrifennu llythyr yn y cylchrawn Cip eleni.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
At gostau Eisteddfod Tawe Nedd ac Afan....................................£150,000
yn ogystal â chefnogaeth sylweddol 'mewn da'

**Ymddiriedolaethau**
BBC Plant Mewn Angen: .....................................£78,813 (dros 3 blynedd)
Ymddiriedolaeth Lloyds TSB: ..............................................................£6,000
Pantyfedwen: .......................................................................................£4,000
Celfyddydau a Busnes: .......................................................................£4,000
Mary Homfrey: .....................................................................................£2,000
Atlantic Foundation: ..............................................................................£500

**Prif Gymynroddion**
Elizabeth E Gwyn Williams, Llangollen ......................................£302,515
Martha J G Bevan, Abertawe..........................................................£47,500
Leah Roberts, Blaenau Ffestiniog .................................................£13,342
Hefina Thomas, Llangefni................................................................ £2,518
Megan S Thomas, Aberhonddu.......................................................£2,209
Isaac N Davies, Llanbedr Pont Steffan............................................£2,000
Margaret D Hughes, Abergele.........................................................£2,000
Urien ap Morgan, Blaenau Ffestiniog..............................................£1,033
Catherine Maria Jones, Glyn Dyfyrdwy............................................£1,000
Arfon Williams, Bethesda ..............................................................£1,000
£375,117

Rydym yn chwilio yn barhaus am noddwyr newydd, sy'n gallu ein cefnogi drwy gymorth ymarferol neu ariannol. Mae'r buddiannau y gallwn eu cynnig yn cynnwys sylw yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru a brandio ar ddeunyddiau amrywiol.

## Awdurdodau Lleol

Gwynedd ...............................£30,490
Conwy ..................................£15,606
Powys .................................... £7,160
Penfro.....................................£7,900
Ynys Môn...............................£15,905
Rhondda Cynon Taf..................£5,000
Penybont..................................£1,500
Fflint.........................................£5,000
Caerdydd..................................£2,500
Merthyr....................................£2,200
Caerffili..................................£13,750
Eisteddfod - amrywiol............. £7,741

Cyfanswm: ..................£114,752

Ceir cefnogaeth ymarferol gan Dinbych, Powys, Penfro a Chaerdydd trwy ddarparu swyddfeydd i staff y Maes.



Cysylltwch ag: Efa Gruffudd Jones, Cyfarwyddwr Datblygu
Ffôn: 029 2080 3359 Ffacs: 029 20803351 E-bost: efa@urdd.org Gwefan: www.urdd.org

# Datganiad yr Archwilwyr ar y Crynodeb Ariannol

## Datganiad yr Archwilwyr i Ymddiriedolwyr Urdd Gobaith Cymru

Yr ydym wedi arholi'r crynodeb ariannol ar y dudalen yma.

### Cyfrifoldebau priodol ymddiriedolwyr ac archwilwyr

Yr ydych chi fel ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r crynodeb ariannol. Yr ydym wedi cytuno i adrodd i chi ein barn ar gysondeb y crynodeb ariannol gyda'r cyfrifon statudol llawn, a arwyddwyd ar 29 Medi, 2003

### Sail ein barn

Yr ydym wedi gwneud y gwaith yr ydym yn ei ystyried yn addas i sefydlu a yw'r crynodeb ariannol yn gyson gyda'r datganiadau ariannol pan baratowyd rhain oddi wrthynt.

### Ein barn

Yn ein barn mae'r crynodeb ariannol yn gyson gyda'r datganiadau ariannol llawn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003.

Patterson Jones ac Evans

Patterson, Jones & Evans
Archwilwyr Cofrestredig, Llanbedr Pont Steffan

Dyddiad: 29 Medi, 2003

## Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Mae'r cyfrifon uchod yn grynodeb o wybodaeth a dynnwyd oddi wrth y datganiadau ariannol llawn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol llawn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 29 Medi, 2003 ac maent wedi'u hanfon i'r Tŷ Cwmnïau ac i'r Comisiwn Elusennau. Archwiliwyd y cyfrifon gan Patterson, Jones & Evans a rhoddwyd adroddiad diamod arnynt.

Mae'n bosib nad yw'r crynodeb ariannol yn rhoi gwybodaeth ddigonol i roi dealltwriaeth lawn ar faterion ariannol yr elusen. Felly, am wybodaeth bellach, dylid ymgynghori â'r cyfrifon statudol llawn; Adroddiad yr Archwilwyr ar y cyfrifon hynny, ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Ceir copïau o'r rhain oddi wrth y cwmni.

Llofnodwyd ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr:

## DATGANIAD Y TRYSORYDD 2003

Mae 2002-2003 wedi bod yn gyfnod arall o ail sefydlogi pwysig i'r mudiad. Tra bo gweithgareddau craidd y mudiad wedi bod yn llwyddiannus tu hwnt, bu'n flwyddyn o gyffro gwirioneddol wrth i ni weld datblygiadau o bwys yn digwydd yng nghanolfannau'r mudiad yng Nglan-llyn, Llangrannog a Chanolfan y Mileniwm.

Mae'r cyfrifon eleni yn dangos gweddill eithriadol o £445,127 (heb gynnwys grantiau penodol ar gyfer adeiladau newydd). Rwy'n siŵr y bydd hyn yn rhyddhad i garedigion y mudiad ar ôl y pryderon a fu'n nodwedd o'r ychydig flynyddoedd diwethaf. Daeth y gweddill hwn i fod yn dilyn sawl peth yn cydredeg. Bûm fel mudiad yn ffodus iawn o gael manteisio ar y canlynol –

- Cymynrodd sylweddol (£302,515) sydd wedi rhoi chwistrelliad aruthrol i gyllid y mudiad
- Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd a'r Fro 2002 a gyfrannodd £29,000 yn ychwanegol at y targed a gytunwyd o £128,000 tuag at weithgaredd y mudiad, yn lleol ac yn genedlaethol
- Blwyddyn arall o reolaeth ariannol gadarn ar draws holl adrannau'r mudiad, gyda phawb yn chwarae ei ran yn bwysig
- Llwyddiant pellach i Langrannog sydd erbyn hyn yn cael ei gydnabod fel cyrchfan wyliau ieuenctid fwyaf Prydain
- Blwyddyn arall o gryfhau yng Nglan-llyn wrth baratoi ar gyfer ehangiad ar y safle

Dros yr un cyfnod, gwelwyd lleihad yng ngwerth ein buddsoddiadau - fel sydd wedi digwydd i fudiadau ar draws ein cyfandir. Mae'n sefydlogrwydd hir dymor yn dibynnu nid yn unig ar yr incwm a'r gwariant blynyddol ond ar werth ein buddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau wrth gefn yn cynnig sefydlogrwydd i ni mewn cyfnodau anodd. Dros y cyfnod nesaf gobeithiwn ailadeiladu'r buddsoddiadau hyn.


Mae cadw trefn ariannol ar fudiad fel yr Urdd yn dipyn o dasg. Mae cymhlethdodau ein rheolaeth ariannol yn tyfu'n flynyddol wrth i ni fuddsoddi mewn mwy o brosiectau ac wrth i ni fentro gyda phartneriaid amrywiol i waith newydd gyda phobl ifanc Cymru. Mae gwariant o filiynau yn digwydd mewn sawl lleoliad gwahanol. Rheolir costau'r mudiad yn gadarn wrth osod nodau unigol i bob canolfan gost - a monitro'r gwariant yn rheolaidd. Mae ein dyled yn fawr i bawb sydd yn rheoli canolfan gost yn effeithiol dan ofal y Cyfarwyddwr Busnes a Phersonel a'r tîm. Diolchwn iddyn nhw am eu gwaith ac am ddod â sefydlogrwydd i'r agweddau ariannol.

## Mantolen 31 Mawrth 2003

| | 2003 £ | 2002 £ |
|---|---|---|
| ASEDION SEFYDLOG | | |
| Eiddo Sylweddol | 4,137,537 | 2,705,419 |
| Buddsoddion | 916,040 | 934,871 |
| | 5,053,577 | 3,640,290 |
| ASEDION CYFREDOL | | |
| Stoc | 23,180 | 28,982 |
| Dyledwyr | 636,402 | 675,382 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 347,088 | 102,806 |
| | 1,006,670 | 807,170 |
| CREDYDWYR: | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | (957,274) | (929,341) |
| Asedion/(Rhwymedigaethau) cyfredol net | 49,396 | (122,171) |
| Asedion llai rhwymedigaethau cyfredol | 5,102,973 | 3,518,119 |
| CREDYDWYR: | | |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | (256,487) | (168,047) |
| | 4,846,486 | 3,350,072 |
| CRONFEYDD | | |
| Cronfeydd cyfyng | 2,484,008 | 1,449,987 |
| Cyfrif incwm a thraul | 2,130,761 | 1,411,834 |
| Cronfa ail-brisio buddsoddion | 100,094 | 320,315 |
| Cronfeydd gwaddol | 131,623 | 167,936 |
| CRONFEYDD | 4,846,486 | 3,350,072 |


## Incwm:

| | £ |
|---|---|
| 1) Llangrannog a Phentre Ifan | 1,439,390 |
| 2) Glan-llyn | 822,946 |
| 3) Incwm o fuddsoddion | 28,676 |
| 4) Eisteddfod Caerdydd a'r Fro 2002 (gan gynnwys grantiau/nawdd perthnasol) | 1,251,350 |
| 5) Cylchgronau (gan gynnwys grantiau) | 111,539 |
| 6) Aelodaeth | 221,448 |
| 7) Rhoddion a chymynroddion | 481,123 |
| 8) Amrywiol | 72,034 |
| 9) Nawdd | 13,703 |
| 10) Grantiau eraill (gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg) | 563,631 |
| | 5,005,840 |
| Grantiau tuag at adeiladau newydd | 1,310,295 |
| Cyfanswm Incwm am 2002/2003: | 6,316,135 |




## Gwariant:

| | £ |
|---|---|
| 1) Llangrannog a Phentre Ifan | 1,060,121 |
| 2) Glan-llyn | 721,264 |
| 3) Costau datblygu'r maes a rhanbarth | 840,637 |
| 4) Eisteddfod Caerdydd a'r Fro 2002 | 1,113,749 |
| 5) Cylchgronau | 115,393 |
| 6) Gweinyddiaeth a rheoli | 154,298 |
| 7) Costau cefnogi ac eraill | 364,968 |
| 8) Costau codi arian a chyhoeddusrwydd | 35,310 |
| 9) Dibrisiant | 154,973 |
| Cyfanswm Gwariant am 2002/2003: | 4,560,713 |




| | 2003 £ | 2002 £ |
|---|---|---|
| Mewn/(Allan) lif net o adnoddau am y flwyddyn | 1,755,422 | 497,955 |
| Colled ar werthu buddsoddion | (504) | (617) |
| | 1,754,918 | 497,338 |
| (Lleihad)/Cynnydd ar ail-brisio buddsoddion – heb eu realeiddio | (258,504) | 35,253 |
| Cynnydd net mewn cronfeydd | 1,496,414 | 532,591 |
| Cronfeydd ar 1 Ebrill 2002 | 3,350,072 | 2,817,481 |

## Canlyniad y flwyddyn - Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Mae'r cyfanswm incwm yn cynnwys £4,817,062 o gronfeydd rhydd, £1,490,238 o gronfeydd clwm a £8,835 o gronfeydd gwaddol. Mae'r cynnydd net am y flwyddyn ar ôl trosglwyddiadau rhwng cronfeydd o £304,825 yn cynnwys £724,250 cynnydd net o gronfeydd rhydd, gweddill net o £1,034,021 o gronfeydd cyfyng a diffyg net o £(2,849) ar cronfeydd gwaddol.



Cysylltwch â: Mai Parry Roberts, Cyfarwyddwr Busnes a Phersonél
Ffôn: 01678 541 010 E-bost: mai@urdd.org Gwefan: www.urdd.org